

Jeremy Miles AC  
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

19 Mehefin 2019

Annwyl Jeremy,

### **Parodrwydd ar gyfer Brexit yng Nghymru**

Elfen allweddol o waith ein Pwyllgor, ers ei sefydlu, yw archwilio materion yn ymwneud â pharodrwydd ar gyfer Brexit. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn paratoi; goblygiadau Brexit i'n porthladdoedd; ac ystyried sut y bydd Brexit yn effeithio ar sectorau allweddol fel iechyd a meddyginiaethau, a bwyd a diod.

Rydym yn dal i bryderu'n ddirfawr am yr effeithiau niweidiol posibl y byddem yn eu hwynebu pa baem yn gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb. Ni allwn gytuno â'r gosodiad mai dim ond un opsiwn mewn amrywiaeth o ganlyniadau posibl yw gadael yr UE heb gytundeb. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol na fyddai gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth dros benderfyniad i adael yr UE heb sicrhau cytundeb. Gan hynny, rydym yn cefnogi'r camau y mae Llywodraeth Cymru, ac eraill, yn eu cymryd i baratoi ar gyfer pob posibilrwydd mewn perthynas â Brexit, gan gynnwys y canlyniadau a fydd yn deillio o adael heb gytundeb.

Yn dilyn y penderfyniad i ymestyn proses Erthygl 50 hyd at y terfyn amser newydd o 31 Hydref 2019, penderfynwyd gofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cydffederasiwn GIG Cymru, Prifysgolion Cymru, a Ffederasiwn y Busnesau Bach roi tystiolaeth i'r Pwyllgor. Cynhaliwyd y sesiynau hyn ar **20 Mai** a **3 Mehefin 2019**. Hefyd, cyflwynodd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru a TUC Cymru dystiolaeth ysgrifenedig. Roeddem hefyd yn ddiolchgar am y cyfle i drafod amrywiaeth o faterion, gan gynnwys parodrwydd ar gyfer Brexit, gyda chi yn ystod ein sesiwn ar 3 Mehefin 2019.

Rydym yn ysgrifennu i gynnig y safbwyntiau a ganlyn ac i geisio mwy o wybodaeth gennych am nifer o faterion.



## **Parodrzydd cyffredinol ac Ymgyrch Yellowhammer**

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 3 Mehefin, clywsom fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer 'gwersi a ddysgwyd' mewn perthynas â pharatoi i adael yr UE. Beth oedd y negeseuon allweddol a ddeilliodd o'r ymarfer hwn, pa fylchau ddaeth i'r amlwg, a pha gamau ydych chi'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain?

Nodwn fod Ymgyrch Yellowhammer wedi dod i ben ar 11 Ebrill 2019. Mae'r Institute for Government wedi nodi'n ddiweddar y gallai trosiant a blinder yn y gwasanaeth sifil effeithio ar y gwaith o gynllunio ar gyfer gadael yr UE heb gytundeb yng nghyd-destun y terfyn amser newydd. Faint o drosiant staff y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wynebu mewn perthynas â pharatoi a chynllunio i adael yr UE heb gytundeb?

## **Parhad cadwyni cyflenwi**

Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym y gall llywodraeth leol ei sicrhau ei hun i ryw raddau mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir gan gontractwyr ond, er hynny, gallai ffactorau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth yn ymwneud â pharhad cadwyni cyflenwi arwain at fethiant contractau, yn enwedig os byddwn yn gadael heb gytundeb. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo'r sector cyhoeddus datganoledig i leihau'r posibilrwydd hwn os na fydd cytundeb? Byddai'n ddefnyddiol pe gallech gynnwys unrhyw asesiad o'r adnoddau y byddai eu hangen (o safbwynt adnoddau dynol ac ariannol) pe baem yn gorfod wynebu sefyllfa o'r fath.

Yn yr un modd, dywedodd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru fod risgiau i'r diwydiant mewn perthynas â chadwyni cyflenwi a thynnodd sylw hefyd at y ffaith bod y wybodaeth a oedd wedi dod i law yn awgrymu mai dim ond traean o fusnesau allforio oedd â'r dystysgrif EORI angenrheidiol erbyn y terfyn amser gwreiddiol ar gyfer Brexit. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i godi ymwybyddiaeth busnesau Cymru o'r angen i gael tystysgrifau EORI?

## **Cyfathrebu**

Nodwn sylwadau rhanddeiliaid bod Llywodraeth Cymru wedi cyfathrebu'n well dros y chwe mis yn arwain at y terfyn amser gwreiddiol, sef 29 Mawrth 2019. Fodd bynnag, o gofio'r ansicrwydd parhaus a'r posibilrwydd y gallem fynd dros y dibyn ar 31 Hydref 2019, rydym hefyd yn nodi y bydd llawer o'r problemau cyfathrebu a nodwyd yn flaenorol yn parhau. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am y modd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod ei negeseuon yng nghyswllt paratoi ar gyfer gadael yr UE heb



gytundeb yn glir ac yn gyson, ac yn osgoi'r risg y bydd busnesau a phobl yn llai parod i wynebu'r posibilrwydd hwn ar ddiwedd mis Hydref oherwydd y canfyddiad na fydd hynny'n digwydd?

Yn yr un modd, dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru wrthym mai ychydig iawn o fusnesau oedd wrthi'n paratoi ar gyfer gadael yr UE heb gytundeb, a hynny'n rhannol oherwydd nad oeddent yn sicr beth yn union yr oedd angen iddynt baratoi ar ei gyfer. A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i'w cynorthwyo ymhellach i baratoi ar gyfer y posibilrwydd hwn, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed drwy borthol Brexit Busnes Cymru, Banc Datblygu Cymru, a gwefan Paratoi Cymru? At hynny, a fyddech cystal â darparu'r ffigurau diweddaraf yng nghyswllt y rhai sy'n defnyddio gwefan Paratoi Cymru a phorthol Brexit Busnes Cymru?

### **Cyllid yr UE**

Os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb, dywedodd Universities UK wrthym fod y goblygiadau ymarferol i gronfeydd yr UE yn dal yn aneglur. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi ynghylch sut y bydd gwarantu cynlluniau ariannu'r UE, fel Horizon 2020 ac Erasmus +, yn gweithio'n ymarferol?

Yn ogystal â hyn, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 3 Mehefin, dywedodd eich swyddog fod Llywodraeth Cymru yn paratoi i gymryd rhan yn rhaglenni'r UE a gweithgareddau eraill yr UE yn y dyfodol os bydd Erthygl 50 yn cael ei ymestyn eto. Pa weithgareddau ydych chi am ymgymryd â nhw fel rhan o'r gwaith paratoi hwn?

### **Y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE**

Yn ei gyflwyniad, tynnodd TUC Cymru sylw at bryderon ynghylch y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a'i oblygiadau i ddinasyddion yr UE / AEE sy'n byw yng Nghymru. Nodwn y pryderon hyn a byddwn yn ystyried yr opsiynau ar gyfer datblygu ein gwaith ein hunain yn y maes hwn cyn toriad yr haf.


### **Deddfwriaeth 'dim cytundeb'**

Rydym yn deall bod gwaith i gywiro diffygion yn neddfwriaeth yr UE wedi'i gwblhau i raddau helaeth, ond mae'n llai eglur, fodd bynnag, pa ddeddfwriaeth ychwanegol y byddai ei hangen i fynd i'r afael â'r goblygiadau posibl a fyddai ynghlwm wrth adael heb gytundeb. A allwch chi roi syniad i ni o'r ddeddfwriaeth ychwanegol y byddai angen i'r Cynulliad ei phasio i ymdrin ag unrhyw faterion ymarferol a amlygwyd wrth gynllunio ar gyfer posibilrwydd o adael y DU heb gytundeb?



Anfonir copi o'r llythyr hwn at bawb a roddodd dystiolaeth inni fel rhan o'n gwaith mewn perthynas â pharodrwydd i adael yr UE.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "David F. Rees." The signature is written in a cursive style and is set against a light yellow rectangular background.

David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English*

